Cynigion ar gyfer Ysgol cyfrwng Cymraeg newydd

Dogfen Ymgynghori
Fersiwn i Blant

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

www.wrexham.gov.uk | www.wrecsam.gov.uk

Pwy ydym ni?

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gyfrifol am yr holl ysgolion o fewn ein hardal. Rydym yn rhan o dîm sy'n gweithio i'r cyngor i gefnogi'r ysgolion hyn.

Ein hamcanion:

- Rhoi'r cyfle gorau i bob plentyn i ddysgu mewn ysgol Saesneg, Ysgol Gymraeg neu ysgol ffydd.
- Bod ag adeiladau diogel a chryf.
- Gwneud yn siwr fod arian ar gyfer plant yn cael ei wario'n deg.
- Rhoi cyfle i bawb roi eu barn ar benderfyniadau sy'n eu heffeithio nhw.

Beth sy'n digwydd ar hyn o bryd?

Hoffem agor ysgol cyfrwng Cymraeg newydd. Mae hyn oherwydd fod mwy o blant eisiau mynd i ysgol Gymraeg a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg bob blwyddyn.



Beth yw'r cynllun?

Byddwn yn creu Dosbarth Meithrin a Derbyn mewn adeilad dros dro. Pan fydd yn bosib, byddwn yn symud i adeilad parhaol, a hwn fydd ein hysgol cyfrwng Cymraeg newydd.



Beth fydd yn newid?

Bydd gan eich rhieni fwy o ddewis o ran pa ysgol yr hoffent ei dewis ar gyfer eich brodyr a'ch chwiorydd iau. Gan eich bod chi yn yr ysgol yn barod byddwch chi'n aros yn yr ysgol yr ydych ynddi'n barod.

Pam ydym ni'n gofyn i chi?

Rydym am ofyn i chi beth yw eich barn am ein cynllun. Byddwn yn dod i'ch cyngor ysgol ac yn gwrando ar beth sydd gennych chi i'w ddweud.

Pam ein bod ni'n meddwl fod angen newid pethau?

Mae'n Ysgolion Cymraeg bron yn llawn. Mae arnom angen Ysgol newydd fel y gall plant barhau i fynd i ysgolion Cymraeg os ydynt am wneud hynny.

Pryd fydd pethau yn digwydd?

Dweud wrth bobl beth rydym eisiau ei wneud:
Medi – Tachwedd 2017

Pobl yn dweud eu barn wrthym ni:
Tachwedd 2017

Cytuno beth rydym yn ei wneud:
Ebrill 2018

Agor yr ysgol Gymraeg newydd:
Medi 2019

Eisiau gwybod mwy?

Rydym wedi gwneud hwn yn fyr ac mewn ffordd y byddwch yn ei ddeall, gobeithio.

Rydym wedi anfon dogfen hirach at eich rhieni, eich athrawon, ac at bobl eraill. Mae'r ddogfen honno ar ein gwefan:

www.wrexham.gov.uk/NewWelshMediumPrimary

Beth yw eich barn chi?

Cofiwch ddweud wrthym...

Hoffech chi weld rhywbeth arall yn digwydd yn lle beth rydym yn ei gynllunio?

Ydych chi eisiau dweud unrhyw beth arall?

Anfonwch eich sylwadau atom erbyn **7 Tachwedd 2017**. Ni fyddwn yn gallu derbyn unrhyw beth y byddwch yn ei anfon atom ar ôl y dyddiad hwn.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

- Byddwn yn casglu'r holl atebion ac yn dweud wrth bawb beth ydy'r prif sylwadau.
- Bydd y cyngor yn cyfarfod er mwyn penderfynu beth i'w wneud.
- Wedyn, byddwn yn gadael i bawb wybod beth yw'r penderfyniad.